# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Medi 2019

Amser: 13.30 - 15.16

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5623

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Nick Selwyn |
| Staff y Pwyllgor: | Adrian Crompton<br>Matthew Mortlock<br>Nick Selwyn<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Adam Price AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau yn amodol ar y camau canlynol:

- Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r diweddariad nesaf a drefnwyd ar Wasanaethau Radioleg tan ddiwedd 2019;
- Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r diweddariad terfynol ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru tan dymor y gwanwyn 2020, ar ôl i'r rhaglen ddod i ben ym mis Mawrth 2020;
- Gofynnodd y Pwyllgor eu bod yn gofyn am eglurhad ar rôl y Cyfarwyddwr Trosiant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a
- Bydd y Pwyllgor yn ymateb i'r llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.1 Cyfoeth Naturiol Cymru: llythyr gan Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru (11 Gorffennaf 2019)

2.2 Gwasanaethau radioleg – adroddiad cryno cenedlaethol: y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru (Gorffennaf 2019)

2.3 Gwaith craffu ar Gyfrifon 2017-18: llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (16 Gorffennaf 2019)

2.4 Adroddiadau'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol: 2017-18 a 2018-19

2.5 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Diweddariad gan Lywodraeth Cymru (Mehefin 2019)

2.6 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyrau gan Lywodraeth Cymru (5 a 20 Awst 2019), Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (16 Awst 2019) a gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (29 Awst 2019)

2.7 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Llythyr gan y Prif Weinidog (5 Awst 2019)

2.8 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (9 Awst 2019)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau: Gohebiaeth y Pwyllgor

4.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad pellach ar nifer o faterion. Ar ôl ei dderbyn, bydd y Pwyllgor yn paratoi ei adroddiad drafft.

## 5 Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru: adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

5.1 Fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru briffio'r Aelodau ar yr adroddiad hwn.

5.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal ymchwiliad i effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn y flwyddyn newydd. Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau sydd ar ddod ar sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu cyfrifoldebau newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (adroddiad wedi'i gyhoeddi fis Medi 2019); a'r dyletswyddau newydd a osodwyd arnynt a'u partneriaid gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi fis Tachwedd 2019), a bydd yn rhoi ystyriaeth i'r adroddiadau fel rhan o ymchwiliad penodol yn y flwyddyn newydd.

## 6 Cronfa Gofal Integredig: adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru briffio'r Aelodau ar yr adroddiad hwn.

6.2 Cytunodd yr aelodau i barhau i gadw golwg ar y mater hwn a dychwelyd ato yn gynnar yn y flwyddyn newydd.